# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**:<br><br>Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl – y Papur Gwyrdd | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad**<br>*(i'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*: |
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | **Laura Hughes** |
| **Dyddiad:** | **Mawrth 2018** |
| **Arweinydd polisi:** | Stephen Phipps |
| **Manylion cyswllt**: | Laura.hughes5@llyw.cymru / 03000 252316 |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☐ Polisi
- ☒ Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Arall (Nodwch isod)
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Contractau, tendrau

**Costau: Beth yw'r cost oes gyfan a ragwelir ar gyfer y rhaglen/prosiect?**
Os yn llai na £25k, nid oes angen asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| Llai na £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Mwy na £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg?**

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Mwy na 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:**

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei baratoi er mwyn ystyried yr effeithiau sy'n ymwneud â chynigion i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru, fel sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl ("y Papur Gwyrdd").

Mae'r cynnig i greu awdurdodau lleol newydd a chryfach yn rhan o raglen ehangach sy'n amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol llywodraeth leol. Rydym am weld awdurdodau lleol mwy cadarn a chynaliadwy, sydd wedi'u grymuso i gefnogi cymunedau drwy ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon ac effeithiol. Mae'r newid yn nemograffeg Cymru ynghyd â'r ansicrwydd cyllidol parhaus yn rhoi pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Nid yw'r pwysau hwn yn newydd, ond mae’r sefyllfa yn fwy difrifol erbyn hyn a bydd yn parhau felly am y dyfodol agos. Mae gwir angen newid radical a all helpu i drawsnewid ein gwasanaethau a sicrhau llywodraeth leol gref, sydd â'r gallu angenrheidiol i sicrhau ffyniant i bawb.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ystod eang o ddiwygiadau sylfaenol mewn llywodraeth leol a fydd yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth â llywodraeth leol a phobl Cymru. Mae proses ymgynghori eang iawn wedi'i chynnal ar y cynigion ers mis Gorffennaf 2014, gan gynnwys tri Asesiad blaenorol o'r Effaith ar y Gymraeg.

Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ystyried yr effeithiau sy'n ymwneud â'r rhaglen ddiwygio yn ogystal â'r cynigion i greu awdurdodau lleol cryfach sydd wedi'u grymuso. Y bwriad yw y bydd Bil yn cael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddarach eleni, a bydd Asesiad arall o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gyhoeddi bryd hynny. Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar wahân ar gynigion i ddiwygio'r drefn etholiadol yn 2017, a chyhoeddwyd datganiad ar y ffordd ymlaen ar 30 Ionawr. Bydd y cynigion hynny yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil wrth ei gyflwyno.

Wedi'r diwygiadau hyn, ystyrir cynnal adolygiad o'r system gyllido llywodraeth leol a fyddai'n arwain at ddeddfwriaeth ar wahân. Felly, nid yw cyllid llywodraeth leol wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith hwn.

## CAM 1: CYNLLUNIO

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi?**
**Beth yw’r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?**

Mae'n bwysig bod llywodraeth leol yn cynrychioli'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn agos. Mae gwaith paratoi mewn cysylltiad â datblygu'r Bil wedi canfod bod diffyg amrywiaeth o fewn llywodraeth leol. Nid yw'r corff o aelodau etholedig bob amser yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu cynrychioli, yn enwedig mewn perthynas ag oedran, rhywedd ac ethnigrwydd. Mae’r sefyllfa’n debyg hefyd yn achos uwch swyddogion llywodraeth leol. Yn ogystal â hyn, nid yw'r diwylliant a'r arferion gweithio mewn awdurdodau lleol bob amser yn ffafriol i annog amrywiaeth.

Mae'r diwygiadau'n cynnig yr egwyddorion canlynol, a byddai eu cyflawni yn cael ei ystyried yn 'llwyddiant';

- **Aelodau Etholedig:** Yn Fentrus ac yn Uchelgeisiol, yn Llywio ac yn Dylanwadu, yn Berthnasol ac yn Gynrychioladol
- **Llywodraeth Leol Gryfach:** Yn Esblygu ac Arloesi, yn Cael Eu Gwerthfawrogi Gan Gymunedau, yn Agored a Thryloyw
- **Cymunedau:** Wedi'u Grymuso ac yn Mynegi Diddordeb, yn Ffynnu ac yn Llwyddiannus, yn Cael Eu Cynrychioli a'u Gwasanaethu
- **Gweithlu'r Sector Cyhoeddus:** Yn Cael Eu Gwerthfawrogi a'u Parchu, yn Cael Eu Cefnogi a'u Hannog, yn Arwain ac yn Greadigol.

Nid yw'r diwygiadau'n benodol i siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg na'r iaith ei hun, ond y nod yw bod o fudd i'r holl gymunedau yng Nghymru.

Wrth ystyried y dull o fynd ati i greu llai o awdurdodau, a’r rheini’n rhai mwy o faint, mae’r Papur Gwyrdd yn cyflwyno nifer o opsiynau i’w trafod. Ym mhob un o’r opsiynau hyn, mae’r Papur Gwyrdd yn amlinellu’r angen am batrwm clir yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol ac mae’n cynnig patrwm dangosol i’w drafod. Bydd yr effeithiau yn yr Asesiad Effaith hwn hefyd yn amrywio, yn ddibynnol ar bob un o’r opsiynau yn y Papur Gwyrdd.

- Opsiwn 1 – Uno gwirfoddol
- Opsiwn 2 – Dull fesul cam, gyda'r awdurdodau fydd yn cytuno'n gynnar yn cael eu huno'n gyntaf cyn i eraill eu dilyn
- Opsiwn 3 – Rhaglen uno gynhwysfawr a neilltuedig

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn y Papur Gwyrdd yn sail i’r cynigion a gynhwysir yn y Bil ar gyfer creu llai o awdurdodau lleol, a’r rheini’n rhai mwy o faint.

Isod ceir crynodeb o elfennau ehangach cynigion y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) nad ydynt wedi’u cynnwys yn y Papur Gwyrdd.

**Diwygiadau cyfansoddiadol – llywodraethu, bod yn agored, tryloywder, ymgysylltu**

- Byddai awdurdodau lleol sy’n uno yn cael pŵer cymhwysedd cyffredinol er mwyn eu galluogi i fod yn fwy arloesol wrth ddarparu gwasanaethau.
- Byddai mesurau yn cael eu rhoi ar waith er mwyn gwella amrywiaeth yr aelodau etholedig fel eu bod yn adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu yn agosach. Byddai’r mesurau hefyd yn sicrhau bod yr aelodau etholedig yn gallu ymgymryd â'u rôl fel cynrychiolwyr yr etholaeth a'r awdurdod lleol yn effeithiol.
- Byddai trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y cyngor yn fwy hygyrch ac agored.
- Byddai ystod o fesurau yn cael eu rhoi ar waith er mwyn galluogi'r cyhoedd i gymryd mwy o ran, ac i'r awdurdodau lleol weithredu'n fwy agored.

**Llywodraethu a Pherfformiad**

- Byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd â phroses hunanasesu gadarn a fyddai'n cael ei chefnogi drwy adolygiadau rheolaidd gan gymheiriaid.
- Byddai rôl newydd y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio yn cael ei chryfhau.
- Byddai'r broses i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth a/neu ymyrraeth i awdurdodau lleol yn symlach ac yn gryfach.
- Byddai newidiadau technegol yn cael eu cyflwyno i'r strwythur cyllid.

**Cynghorau Cymuned a Thref**

- Byddai modd i rai cynghorau cymuned sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd allu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.
- Byddai gofynion yn cael eu cyflwyno sy'n ymwneud â pharatoi cynlluniau hyfforddi.
- Byddai hefyd angen i gynghorau cymuned sicrhau bod eu cyfarfodydd yn fwy hygyrch ac agored.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**
**a**
**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn seiliedig ar ymgysylltu ac ymgynghori helaeth ag ystod o randdeiliaid a'r cyhoedd ers mis Gorffennaf 2014. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cynhaliwyd pedwar ymgynghoriad. Roedd un yn ystyried yr opsiwn o fynd ati i weithio'n rhanbarthol yn systematig ac yn orfodol, fel dewis amgen i'r cynigion uno gan y Llywodraeth Cymru flaenorol.

Mae'r Papur Gwyrdd yn cyflwyno tri opsiwn posibl ar gyfer uno. Ni fydd modd i unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a ddaw yn sgil uno'n benodol gael eu cronni gan awdurdodau nad ydynt yn uno, na'u gohirio o dan opsiwn 2 ar gyfer awdurdodau na fyddai'n cytuno'n gynnar.

Mae'r rhaglen ddiwygio yn deillio o fis Ionawr 2014 pan nodwyd yn glir yn Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ("y Comisiwn Williams") bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu heriau difrifol a pharhaus.

Cyflwynodd y Comisiwn Williams yr achos dros ddiwygio awdurdodau lleol yn strwythurol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy ac o safon yn parhau i gael eu darparu. Dywedodd y Comisiwn Williams fod ardaloedd cyngor sy'n llai eu maint yn wynebu heriau sylweddol wrth geisio cyflenwi gwasanaethu mewn modd cyson, gan sicrhau'r cadernid, yr arbenigedd a'r arweinyddiaeth a all drawsnewid eu sefydliadau a chefnogi eu cymunedau mewn byd cymhleth, sy'n newid. Roedd y Comisiwn hefyd o'r farn bod cyfyngiadau pellach ar awdurdodau lleol llai eu maint oherwydd bod eu gorbenion gweinyddol yn uwch ar gyfartaledd.
Nid yw bellach yn gynaliadwy parhau â 22 o awdurdodau sy'n aml yn gwneud yr un pethau mewn gwahanol ffyrdd 22 o weithiau. Nid yw'r materion hyn yn newydd; nid yw ychwaith yn newydd y bydd y cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i fod yn heriol yn y dyfodol agos.

Fe ystyriodd y Comisiwn Williams yr opsiynau polisi wrth lunio'i adroddiad a'i argymhellion terfynol, a chafodd y rhain eu derbyn yn fras gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r argymhellion hyn fel cynigion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol, ac mae wedi ymgynghori'n helaeth arnynt drwy bedwar ymgynghoriad blaenorol. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion i'r ymgyngoriadau hyn wedi mynegi cefnogaeth i'r cynigion, ac maent wedi dylanwadu ar y gwaith o fireinio'r opsiynau polisi. Dyma rai o'r opsiynau a ystyriwyd, ond na aethpwyd i'r afael â nhw yn y pen draw:

- Ystod o batrymau gwahanol ar gyfer uno awdurdodau lleol
- Cyfyngiadau ar dymhorau gwasanaeth aelodau etholedig awdurdodau lleol
- Pwyllgorau ardal cymuned
- Rhai o'r gofynion i'w diwallu er mwyn i gynghorau cymuned fod yn gymwys ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol
- Asesiadau rheoleiddwyr ar y cyd
- Adalw aelodau
- Hawliau pleidleisio i aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu

Er nad yw'r rhaglen ddiwygio yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg, dylai'r darpariaethau fod o fudd i bob cymuned yng Nghymru. Fodd bynnag, drwy'r mesurau yn y cynigion i Ddiwygio'r Drefn Etholiadol, byddai darpariaethau ar waith a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar hawliau pleidleisio pobl ifanc 16 ac 17 oed.

Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* yn 2015 yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â'r effaith y byddai'r cynigion blaenorol i uno yn ei chael ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Ni ymatebodd lawer o'r cyfranogwyr i'r cwestiynau hyn. Ymysg y rheini a wnaeth ymateb, nodwyd effeithiau ar y Gymraeg ac roedd yr ymatebion yn dueddol o awgrymu na ddylid blaenoriaethu'r iaith, neu, ymysg y rheini a ymatebodd yn gadarnhaol, y byddai'r cynigion ehangach ar gyfer llywodraeth leol fwy agored a chynrychioliadol o fudd i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg. Bu Gweinidogion Cymru hefyd yn trafod â Chomisiynydd y Gymraeg, ac mae ei barn wedi'i hystyried. Nododd y Comisiynydd yr effaith y gallai'r opsiynau gwahanol i uno ei chael, yn enwedig ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Pwysleisiodd y Comisiynydd hefyd bwysigrwydd deall effaith y ddeddfwriaeth ar hawliau siaradwyr Cymraeg ym mhob cymuned, ac nid yn unig y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae'r materion hyn wedi'u hystyried wrth ddrafftio'r Papur Gwyrdd ac rydym nawr yn gwahodd ymatebion pellach i'r effeithiau posibl ar y Gymraeg fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion sy'n ymwneud â'r trefniadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a gwella system y Safonau Iaith drwy Fil newydd ar y Gymraeg. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag Is-adran y Gymraeg i sicrhau y bydd unrhyw newidiadau posibl i'r trefniadau presennol yn cefnogi unrhyw awdurdodau lleol newydd a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr?***

Yr uchelgais yn y ddogfen Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr yw creu Cymru sy'n ymateb mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, a chynyddu nifer y bobl sy'n dysgu'r iaith ac sy'n gallu ei siarad â'u teulu, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Nod y cynigion yw gosod cyfeiriad uchelgeisiol ar gyfer pob maes sy'n dylanwadu ar yr iaith ac sy'n cydnabod yr angen i fod yn greadigol os ydym am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i'r Llywodraeth arwain y sgwrs ond hefyd i weithio mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau eraill er mwyn mynd ati i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o fywyd cyhoeddus yng Nghymru.

Mae tair thema i'r strategaeth:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, y blynyddoedd cynnar, addysg statudol, addysg ôl-orfodol, y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; y gweithle, gwasanaethau, defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun; cymuned a'r economi, diwylliant a'r cyfryngau, Cymru a'r byd ehangach, technoleg ddigidol, seilwaith ieithyddol, cynllunio ieithyddol, gwerthuso ac ymchwil.

Nodau cyffredinol y ddeddfwriaeth fydd cefnogi llywodraeth leol i gyflawni ei hymrwymiadau i'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg. Bydd gwella capasiti a gallu awdurdodau lleol yn debygol o'u helpu i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn sgil y pwysau ariannol a demograffig a amlinellir uchod. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc, yn ogystal â'r seilwaith ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg, gan gynnwys opsiynau digidol arloesol. Bydd agweddau penodol o'r diwygio, megis pŵer cymhwysedd cyffredinol, yn helpu awdurdodau lleol sy’n uno i ddod yn fwy arloesol wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau o'r fath.

Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad, byddai awdurdodau lleol cryfach sy'n fwy eu maint yn fwy tebygol o ddarparu cymorth rhagweithiol a chyfundrefnu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd eu hunain, ynghyd ag yn yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu.

Fodd bynnag, byddai'n rhaid gofalu na fyddai’r posibilrwydd o greu ardaloedd sy'n fwy eu maint yn erydu'r arferion presennol yn yr awdurdodau hynny sy'n mynd ati i weinyddu'n fewnol yn bennaf neu yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Yn wir, beth bynnag yw'r arferion presennol ymysg llywodraeth leol yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru am gryfhau a datblygu arferion o'r fath.

Byddai’n ofynnol i awdurdodau lleol feddu ar gyfres fwy cadarn o weithdrefnau llywodraethu corfforaethol a fyddai’n helpu i sicrhau bod eu hymrwymiadau i'r Gymraeg yn cael eu cyflawni, gan gynnwys nodi'r ffordd orau i awdurdod fodloni ei rwymedigaethau o ran yr iaith. Byddai’n rhaid ystyried hyn fel rhan o'r hunanasesiad a'r broses adolygu gan gymheiriaid. Bydd Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio awdurdodau lleol hefyd yn cael rôl ehangach er mwyn craffu a rhoi sicrwydd

ar y materion hyn.

Mae'r diwygiadau hefyd yn debygol o gefnogi sefyllfa'r Gymraeg mewn cymunedau: nid yn unig drwy wella'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ond drwy'r cynigion i sicrhau bod llywodraeth leol yn adlewyrchu'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn well. Mae'n debygol y bydd llywodraeth leol sy'n gweithredu'n agosach at gymunedau – drwy gael aelodau etholedig mwy amrywiol a phrosesau mwy agored a thryloyw – yn cryfhau gallu siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Gan eu bod yn gyflogwyr mawr, mae gan awdurdodau lleol ran bwysig i'w chwarae yn economïau'r ardaloedd lle lleolir eu pencadlys a'u swyddfeydd eraill. Yn yr ardaloedd Cymraeg, mae lleoedd gwaith fel hyn yn rhan bwysig o ddarlun cyflawn yr economi leol sy'n darparu cyfleoedd i'r boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg barhau yn eu hardaloedd lleol, neu ddychwelyd iddynt. Mae hyn yn hollbwysig i gynaliadwyedd yr iaith yn y cymunedau hynny yn y dyfodol. Felly, byddwn yn disgwyl i benderfyniadau ynghylch rheoli ystadau'r awdurdodau a fydd wedi'u huno ystyried yn llawn yr effeithiau posibl ar y Gymraeg.

Yn unol ag egwyddor sybsidiaredd, mae'n debygol y bydd effeithiau llawn y diwygiadau hyn yn cael eu gwireddu drwy'r penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol. Bydd effeithiau'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwerthuso ar lefel leol maes o law.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

hy siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae modd i'r Gymraeg, cymunedau Cymraeg a siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lle nad Cymraeg yw'r brif iaith elwa ar nodau cyffredinol y Bil arfaethedig. Nod y diwygiadau arfaethedig yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn fwy galluog, mwy cynhwysfawr, mwy atebol a'u bod yn rhannu mwy o bwerau a chyfrifoldebau â chymunedau. Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'cymunedau' yw cymunedau buddiant yn ogystal â chymunedau daearyddol, ac felly mae'n cynnwys siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, ac nid yn unig y cymunedau hynny lle mai'r Gymraeg sydd gryfaf. Dylai hyn sicrhau bod modd i awdurdodau lleol wasanaethu a chynrychioli'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn well, a mynd ati i ddarparu gwasanaethau, cyfleusterau ac addysg Gymraeg yn well. Dylai'r cynigion hefyd roi cymorth i awdurdodau lleol gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, a diwallu eu gofynion o dan Safonau'r Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle.

Fodd bynnag, mae cynigion penodol hefyd yn debygol o effeithio mewn ffyrdd penodol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg. Gweler crynodeb o'r rhain isod.

## 1. Creu Awdurdodau Lleol Newydd

Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig amryw o ddulliau y gellid eu mabwysiadu i greu llai o awdurdodau, a'r rheini'n rhai mwy o faint. Fel rydym yn nodi uchod, ni fydd modd i unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a ddaw yn sgil uno'n benodol gael eu cronni gan awdurdodau nad ydynt yn uno, na'u gohirio o dan opsiwn 2 ar gyfer awdurdodau na fyddai'n cytuno'n gynnar.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch yr effeithiau y byddai dwyn awdurdodau lleol presennol ynghyd i greu ardaloedd cyngor mwy o faint yn eu cael ar y Gymraeg. Byddai'r awdurdodau newydd yn parhau'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u gosod mewn hysbysiadau cydymffurfio a gyhoeddwyd o dan reoliadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae angen cydnabod y gallai awdurdodau lleol fod wedi cyrraedd gwahanol gamau o ran eu harferion presennol a'u dyheadau o ran defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, llunio polisïau, gweithredu, hyrwyddo'r iaith a chadw cofnodion. Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi'n glir na ddylid colli unrhyw gynnydd yn ystod y broses o greu awdurdodau newydd, er enghraifft, mewn perthynas â gweithio'n ddwyieithog. Lle bo arferion da eisoes ar waith, dylid eu diogelu o fewn awdurdodau lleol mwy o faint a dylid cymryd pob cyfle i'r awdurdodau newydd fod yn fwy uchelgeisiol ac yn llawn dyhead. Byddem yn cymryd pob cyfle i drafod ag unrhyw awdurdod newydd cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hystyried yn llawn yn ystod y cyfnod pontio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch y diwygiadau arfaethedig i system y Safonau yn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hyn yn cynnwys cynnig i roi'r cyfrifoldeb ar gyfer gosod safonau ar gyrff i Weinidogion Cymru; pŵer sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar hyn o bryd. Bydd angen cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio newydd ar gyfer yr awdurdodau lleol newydd (a fyddai fel arall yn gweithredu o dan ddau neu ragor o hysbysiadau cydymffurfio gwahanol) ond mae'n rhy gynnar i amlinellu cynigion manwl ynghylch sut i fynd ati i gyflawni hyn.

Byddai pwyllgorau pontio yn cael eu sefydlu ar gyfer yr awdurdodau sy'n uno cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'r Bil er mwyn dechrau paratoi i greu'r awdurdodau newydd yn effeithiol cyn i'r awdurdodau cysgodol ddod i rym. Byddai gan bwyllgorau pontio rôl bwysig i'w chwarae o ran dylanwadu ar arferion gweithio a pholisïau awdurdodau lleol yn y dyfodol. Gan eu bod yn bwyllgorau i'r awdurdodau presennol, byddent yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, a byddai eu penderfyniadau yn cael eu gwerthuso ar lefel leol.

Fodd bynnag, o fewn y cynigion hyn mae nifer o feysydd y byddent, os cânt eu derbyn, yn gwella'r holl ddarpariaethau wrth i ffiniau unrhyw un o'r ardaloedd awdurdodau lleol newydd gyd-fynd â ffiniau presennol y byrddau iechyd, ac eithrio ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae ein cynnig yn cyd-fynd â'r sefyllfa sydd dan ymgynghoriad ac mae'n seiliedig ar yr un egwyddorion i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus mwy syml ac effeithiol sy'n fwy cyson â'r partneriaethau rhanbarthol presennol.

Bydd yr holl awdurdodau lleol yn parhau'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, ac ystyriwyd yn benodol y Gymraeg fel yr iaith weinyddu mewn sawl awdurdod. Yn y Gorllewin, er enghraifft, lle mae'r Gymraeg yn gryfach fel iaith fusnes, mae

Gweinidogion Cymru o'r farn bod hyn yn gyfle i ledaenu arferion da i ardal fusnes fwy ar draws yr awdurdod lleol newydd.

Yn y Gogledd, mae Gwynedd ar hyn o bryd yn defnyddio'r Gymraeg fel ei phrif iaith fusnes, ac mae Ynys Môn wedi cyhoeddi'r bwriad i fabwysiadu'r polisi hwn yn ddiweddar. Felly, mae'n bosibl y byddai creu awdurdodau mwy eu maint i gynnwys yr arferion gorau hyn mewn perthynas â'r iaith yn gallu hyrwyddo a chefnogi'r Gogledd-orllewin ymhellach fel canolbwynt ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Ar y cyfan, mae Gweinidogion Cymru yn credu y byddai cryfhau capasiti a gallu awdurdodau lleol yn cefnogi eu gallu i weithio'n ddwyieithog, ac yn galluogi staff sy'n dymuno gwneud hynny i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mynd ati i greu awdurdodau lleol newydd a chryfach sydd wedi'u grymuso yn gyfle i rannu a chryfhau arferion gorau a byddai modd gwireddu hyn yn unol â'r penderfyniadau yn lleol.

**2. Aelodau Etholedig**

Mae dyfodol democratiaeth leol yn dibynnu ar sicrhau rôl ystyrlon i gynghorwyr lleol. Dylai’r rôl hon fod yn un y mae'r cyhoedd yn ei deall a'i gwerthfawrogi ac sy'n gallu denu amrywiaeth o bobl sydd â'r sgiliau a'r brwdfrydedd i ennyn hyder. Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gwella amrywiaeth ond mae mwy i'w wneud eto.

Mae'r holl bwysau ar aelodau etholedig, ynghyd â lefel y gydnabyddiaeth ariannol, yn golygu nad yw'r rôl yn hygyrch i lawer o bobl a fyddai'n gynghorwyr gwych. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg. Ni allant fforddio, naill ai’n ariannol nac yn bersonol, ymrwymo i'r lefel ofynnol yn 'rhan-amser'. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylem gydnabod yr ymrwymiad o fod yn gynghorydd a sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cael y gydnabyddiaeth ariannol briodol, yn cael eu parchu a'u cydnabod am y gwaith maent yn ei wneud yn eu cymunedau. Bydd hyn yn golygu talu cynghorwyr ar lefel sy'n cydnabod eu hymrwymiad a'u gwaith caled.

Am amrywiol resymau, mae'r gymhareb cynghorwyr i etholwyr yn amrywio'n fawr rhwng cynghorau yn ogystal ag o fewn cynghorau unigol. Mae ein cynigion yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â hyn a sicrhau bod mwy o gydraddoldeb ar draws Cymru o ran cynrychiolaeth a llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Mae'n briodol i unrhyw awdurdod lleol newydd benderfynu drosto ei hun sut i fynd ati i ddarparu ei wasanaethau a strwythuro ei weithlu. Felly, nid yw'r Papur Gwyrdd yn cynnig unrhyw newidiadau i wasanaethau yn uniongyrchol, er yr ystyrir y byddai creu awdurdodau lleol sy'n fwy eu maint yn cynyddu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael iddynt mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer yr awdurdodau newydd, byddai disgwyl i bwyllgorau pontio ac awdurdodau cysgodol gynllunio'r ffordd y byddant yn darparu gwasanaethau a nodi arferion gorau ar draws yr awdurdodau lleol presennol a fydd yn cael eu dwyn ynghyd. Byddai unrhyw effeithiau ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg drwy benderfyniadau'r dyfodol – gan gynnwys drwy newidiadau i lefelau gwasanaethau – yn cael eu gwerthuso ar lefel leol wrth i'r penderfyniadau gael eu gwneud.

### 3. Llywodraethu a gwella

Mae nifer o fesurau ar gael i sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol yr holl awdurdodau lleol yn gadarn mewn modd cyson. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno dull newydd o reoli perfformiad yn seiliedig ar hunanasesiad ac adolygiad gan gymheiriaid ar draws ystod o feini prawf sy'n ymwneud â'r trefniadau sydd gan awdurdod ar waith ar gyfer rheoli ac atebolrwydd. Byddai hyn yn cynnwys asesu pa mor dda mae'n bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddai hyn yn annog awdurdodau lleol i gynnwys y Gymraeg yn eu busnes o ddydd i ddydd a gweithredu eu strategaethau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith (yn unol â'r Safonau Hybu), a gall fod yn arbennig o fanteisiol mewn ardaloedd lle nad Cymraeg yw'r brif iaith.

### 4. Bod yn agored, ymgysylltu, a thryloywder

Bwriad y diwygiadau yw sicrhau bod democratiaeth leol yn gryfach, yn fwy agored ac yn fwy cyfranogol. Mae hyn yn debygol o wella'r ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg, gan gynyddu'r tebygolrwydd o ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Bydd awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg wrth arfer y swyddogaeth hon. Felly, byddai'n rhoi mwy o gyfle i siaradwyr Cymraeg gyflwyno sylwadau am benderfyniadau a allai effeithio ar y Gymraeg, yn gadarnhaol neu'n negyddol. Yn ogystal â hynny, byddai gofyn i awdurdodau lleol ddarlledu cyfarfodydd y cyngor, gan alluogi cymunedau Cymraeg, yn aml mewn ardaloedd gwledig, i ddeall sut y caiff penderfyniadau sy'n effeithio arnynt eu gwneud.

### 5. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Byddai pŵer cymhwysedd cyffredinol yn cael ei ymestyn i bob awdurdod lleol sy'n uno a byddai ar gael i'r cynghorau cymuned sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd penodol.

O fewn cyfyngiadau penodol, mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhyddhau awdurdodau lleol o'r angen i nodi pŵer penodol o fewn deddfwriaeth er mwyn mynd ati i weithredu. Mae'n eu galluogi i wneud unrhyw beth y byddai unigolyn yn ei wneud yn gyffredinol. Mae'r pŵer wedi'i ddefnyddio gan awdurdodau lleol yn Lloegr, er enghraifft, i gynnal cynlluniau indemniad morgeisi i gefnogi'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf, mewn partneriaeth â chyrff benthyca preifat a chymdeithasau tai. Byddai modd i awdurdodau lleol ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i gymryd camau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn ffyrdd efallai nad oes ganddynt yr awdurdod i'w wneud ar hyn o bryd. Penderfyniad i'r awdurdodau yn unigol fydd sut y maent am ddefnyddio'r pŵer. Mae'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer gweithredu ar hyn o bryd yn gyfyngedig iawn yn achos cynghorau cymuned. Byddai'r pŵer cyffredinol yn rhoi rhyddid sylweddol i'r cynghorau cymuned hynny sy'n gymwys i ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol (gweler isod) i weithredu mewn ffyrdd newydd mewn ymateb i ofalon a phryderon eu cymunedau.

Yn yr achosion hynny lle defnyddir y pŵer cyffredinol i ddatblygu modelau darparu amgen ar ran awdurdod lleol sydd, er enghraifft, yn cynnwys mentrau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol neu bartneriaid eraill, mae'n werth nodi bod y swyddogaeth a

ddirprwywyd yn parhau'n swyddogaeth i'r cyngor, a'i bod felly'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft, cyfrifoldeb awdurdod lleol yw sicrhau bod modd i ddefnyddwyr gael y gwasanaethau hyn (sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg) yn Gymraeg os ydynt yn cael eu darparu gan gorff arall ar ran yr awdurdod lleol.

## 6. Cynghorau Cymuned a Thref

Mae cynghorau cymuned yn rhan annatod o lywodraeth leol. Yn aml, y Cynghorau Cymuned sydd agosaf at y bobl ac at gymunedau lleol, ac felly byddant mewn sefyllfa unigryw i weld pa wasanaethau sydd eu hangen a allai gael effaith fawr ar fywydau pobl, a'u darparu. Yr un fath ag aelodau etholedig yr awdurdodau lleol, rhaid i gynghorwyr cymuned gynrychioli eu cymunedau a bod yn gynrychiadol ohonynt. Cynigir y byddai rhai cynghorau cymuned sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn ogystal â chyflwyno gofynion sy'n ymwneud â pharatoi cynlluniau hyfforddi a mynd ati i sicrhau bod cyfarfodydd eu cyngor yn fwy hygyrch ac agored. Fel y nodwyd yn achos cynghorwyr awdurdodau lleol, mae cynghorwyr cymuned a thref hefyd yn wynebu pwysau ariannol a phersonol sy'n gallu golygu nad yw'r rôl yn hygyrch i lawer o bobl a fyddai'n gynghorwyr gwych. Ar hyn o bryd, mae diffyg amrywiaeth ymysg yr aelodau etholedig. Wrth gydnabod ymrwymiad a gwerthfawrogi cyfraniad cynghorwyr cymuned a thref, bydd modd cynyddu'r diddordeb yn y rôl ymysg grŵp ehangach o bobl. Bydd y rhain, yn eu tro, yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc sy'n ymgymryd â rôl cynghorydd.

Mae adolygiad annibynnol, trawsbleidiol ar y gweill i nodi sut y gellir cryfhau cynghorau cymuned fel eu bod yn y sefyllfa orau i gefnogi eu cymunedau a gofalu am eu hardaloedd, a dylanwadu ar fywyd o ddydd i ddydd.

Mae'r adolygiad hwn yn ymchwilio i'r rôl y gallai cynghorau cymuned ei chwarae, gan dynnu ar arferion gorau; cynghori ar y model(au) neu'r strwythur(au) mwyaf priodol i gyflawni'r rôl hon; ac ystyried sut y gallai'r modelau a'r strwythurau hyn gael eu defnyddio ym mhob cwr o Gymru. Bydd y panel adolygu yn cyflwyno'r canfyddiadau a ddaw i'r amlwg ym mis Gorffennaf 2018, a bydd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol ym mis Hydref 2018.

**Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

Mae pob siaradwr Cymraeg a'r rheini sy'n dysgu'r iaith yn rhanddeiliaid, lle bynnag yng Nghymru maent yn byw neu'n gweithio. Ymysg y rhanddeiliaid eraill yr effeithir yn uniongyrchol arnynt mae awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, aelodau etholedig ac uwch swyddogion.

Mae siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r cynigion. Cafwyd ymatebion gan ystod eang o sefydliadau a llawer o'r cyhoedd i'n ymgyngoriadau blaenorol i gyd, ac roedd nifer o'r rhain wedi'u cyflwyno yn Gymraeg. Yn y gorffennol, rydym wedi gofyn cwestiynau penodol ynghylch effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled Cymru a oedd yn gyfle i gyflwyno barn gan gynnwys ar effaith y cynigion ar y Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi cynnal

trafodaethau yn y gorffennol â Chomisiynydd y Gymraeg a byddant yn cynnal trafodaethau pellach fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd hwn.

Mewn ymateb i'r pryderon blaenorol a godwyd, sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor ar y Gymraeg a Llywodraeth Leol. Yn benodol, roedd y Grŵp yn ystyried effaith bosibl yr uno ar ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddu fewnol llywodraeth leol. Ystyriodd hefyd rôl llywodraeth leol fel hwylusydd ar gyfer datblygu economaidd i gefnogi'r Gymraeg. Cyflwynodd y Grŵp adroddiad yn ystod haf 2016, a chyhoeddwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016. Er y derbyniwyd mwyafrif yr argymhellion, gwrthodwyd rhai argymhellion a oedd yn ymwneud â lefel statudol rhugldeb yn y Gymraeg ar gyfer swyddi penodol o fewn llywodraeth leol. Nodwyd:

"Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen arweiniad ar yr iaith Gymraeg gan y rhai sy'n arwain ein gwasanaethau cyhoeddus. Ar ôl pwyso a mesur, fodd bynnag, deuwn i'r casgliad fod Argymhelliad 2(a) [a 3] yn anymarferol ac na fyddai'n ddoeth i dorri'r egwyddor bod cysylltiad uniongyrchol rhwng gofynion sgiliau iaith Gymraeg a gofynion y swydd".

Roedd rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad yn ymwneud â dyletswyddau Comisiynydd y Gymraeg a phartneriaid eraill, ond mae'r argymhellion eraill sydd wedi/sydd yn cael eu gweithredu drwy Strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru a pholisïau eraill yn cynnwys;

- Datblygu Strategaeth newydd ar y Gymraeg i gynnwys adolygu Mesur y Gymraeg 2011
- Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Technoleg Iaith a chronfa technoleg iaith er mwyn arwain y maes hwn.
- Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar lywodraeth leol i hyrwyddo datblygiad economaidd lleol, a sicrhau bod twf a ffyniant y Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o'r ddyletswydd honno.
- Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth lawn a chyfartal â llywodraeth leol, ddatblygu a gweithredu strategaeth ieithyddol-economaidd ar gyfer siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd cyfagos a pherthnasol, yn seiliedig ar drefi Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llanelli.
- Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r gwaith o ddatblygu Dinas Ranbarth Bae Abertawe er mwyn sicrhau bod ffyniant y Gymraeg yn nwyrain Sir Gaerfyrddin (gan gynnwys Llanelli, Cwm Gwendraeth a Chwm Aman) yn flaenoriaeth benodol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys adran ar y tueddiadau ar gyfer dosbarthiad daearyddol o'r siaradwyr Cymraeg dros y 25 mlynedd nesaf yn ei hadroddiad cyntaf ar y tueddiadau tebygol yn y dyfodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae prosiectau pellach yn cael eu rhoi ar waith gan bartneriaid sy'n cynnwys y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgolion Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion sy'n ymwneud â'r trefniadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, a gwella system y Safonau Iaith drwy Fil newydd ar y Gymraeg. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y ddau Fil

arfaethedig yn cyd-fynd er mwyn cefnogi unrhyw awdurdodau lleol newydd a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Bydd cyfraniadau mewn perthynas â'r effaith bosibl ar y Gymraeg eto yn cael eu croesawu a'u hannog yn ystod yr ymgynghoriad hwn ar y Papur Gwyrdd. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddwn yn cynnal trafodaethau rheolaidd â phob awdurdod lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid perthnasol.

**Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch fanylion llawn at ddibenion cadw cofnod.**
(Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol)

Amherthnasol

**Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**
ee. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Amherthnasol

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd Asesiad pellach o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gyhoeddi wrth i Fil Llywodraeth Leol (Cymru) gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

## CAM 2: PENNU AC ASESU EFFEITHIAU

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith**
**Crynhowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.**

**Effeithiau cadarnhaol:**

### 1. Creu Awdurdodau Lleol Newydd

Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig dulliau o greu awdurdodau lleol cryfach sydd wedi'u grymuso sydd â mwy o allu a chapasiti. Bydd yr awdurdodau lleol newydd yn parhau'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, ac mae hyn yn gyfle i gryfhau arferion gorau a'u rhannu ymysg yr awdurdodau. Mae'n debyg y bydd awdurdodau sy'n fwy eu maint ac sy'n fwy cadarn mewn sefyllfa well i gyflawni eu hymrwymiadau i'r Gymraeg yn effeithiol, yn enwedig yn sgil yr heriau demograffig ac ariannol maent yn eu hwynebu.
**SGÔR EFFAITH 12 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 4)**

### 2. Amrywiaeth yr Aelodau Etholedig

Mae ystod o fesurau ar gael i wella amrywiaeth yr aelodau etholedig fel eu bod yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn agosach. Gallai hyn wella'r gynrychiolaeth o'r siaradwyr Cymraeg a'r cymunedau Cymraeg, gan effeithio'n cadarnhaol ar y penderfyniadau a wneir sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
**SGÔR EFFAITH 6 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 2)**

3. **Llywodraethu corfforaethol, perfformiad a gwella**

Mae ystod o fesurau ar gael i wella llywodraethu corfforaethol a pherfformiad awdurdodau lleol, gan eu galluogi i weithredu eu strategaethau yn well i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Ystyrir y bydd yr awdurdodau lleol newydd sy'n rhannu gallu yn fwy tebygol o allu gwireddu cyfleoedd i wella eu cyflawniad o ymrwymiadau'r Gymraeg, a byddai hyn o fudd penodol yn yr ardaloedd hynny lle nad Cymraeg yw'r brif iaith.
**SGÔR EFFAITH 9 (Effaith: 3, Tebygolrwydd: 3)**

4. **Bod yn agored, ymgysylltu a thryloywder**

Bwriad y diwygiadau yw sicrhau bod democratiaeth leol yn gryfach, yn fwy agored ac yn fwy cyfranogol. Maent yn cynnig cyflwyno mesurau i sicrhau mwy o barodrwydd i fod yn agored ac yn dryloyw, ac ystyrir y byddai hyn yn dod â llywodraeth leol yn agosach at siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg fel y byddai penderfyniadau yn fwy tebygol o gael eu gwneud er eu budd. Byddai cymunedau yn elwa ar fod yn rhan fwy uniongyrchol ac agosach o benderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau.
**SGÔR EFFAITH 16 (Effaith: 4, Tebygolrwydd: 4)**

5. **Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Byddai darparu pŵer cymhwysedd cyffredinol i'r holl awdurdodau lleol sy’n uno a rhai o'r cynghorau cymuned yn galluogi i’r gwasanaethau sy’n cael eu darparu fod yn fwy arloesol. Byddai hyn yn darparu ystod ehangach o opsiynau i weithredu i hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Pan fo'r pŵer cyffredinol yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu modelau darparu amgen ar ran awdurdod lleol, mae Safonau'r Gymraeg yn parhau i fod yn berthnasol i'r swyddogaeth honno.
**SGÔR EFFAITH 6 (Effaith: 2, Tebygolrwydd: 3)**

**Effeithiau negyddol:**

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod ei bod yn bwysig cymryd gofal i sicrhau na fydd uno awdurdodau lleol yn erydu'r arferion presennol yn yr awdurdodau hynny sy'n mynd ati i weinyddu'n fewnol yn bennaf neu yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Mae'n bwysig bod arferion presennol ymysg llywodraeth leol yn cryfhau ac yn datblygu.

**Cyfleoedd i hyrwyddo’r Gymraeg ee cynnydd o ran statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o’r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle?**

Mae'r holl effeithiau a nodwyd uchod yn rhoi cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

Nid oes unrhyw dadansoddi pellach wedi'i wneud ar hyn o bryd.

Bydd Asesiad pellach o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gyhoeddi wrth i Fil Llywodraeth Leol (Cymru) gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith/asesiad risg?** | Cadarnhaol: ☒<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☐<br>Anhysbys: ☐ |

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol ☒ |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno ☐ |

***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod,* atebwch y canlynol:**
**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru / pwyntiau gweithredu / dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn cael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio ystyried effeithiau ymarferol ein cynigion i greu awdurdodau lleol cryfach sydd wedi'u grymuso. Bydd rhanddeiliaid yn rhydd i nodi a thynnu sylw at effeithiau posibl y cynigion ar y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg. Bydd yr ymatebion yn rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i fireinio'r darpariaethau, a byddant yn cyfrannu at y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) wrth ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**CAM 3: AR ÔL YR YMGYNGHORIAD A PHARATOI I GYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO**

**Yn dilyn ymgynghoriad, pa newidiadau a wnaethoch i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd o ran yr Iaith Gymraeg?**

Fel yr amlinellir uchod, ar ôl mynd ati i ymgynghori'n helaeth dros nifer o flynyddoedd, mae ystod o ystyriaethau wedi'u codi gan randdeiliaid y Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn pwysigrwydd yr ystyriaethau hyn, ac maent wedi ystyried yr adborth hwn ynghyd â'r trafodaethau mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac argymhellion y Gweithgor yn ofalus ar y Gymraeg a Llywodraeth Leol yn 2016. Mae'r Asesiad diwygiedig hwn o'r Effaith ar yr Iaith yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn, ac egluro safbwynt Gweinidogion Cymru. Byddwn yn ceisio safbwyntiau pellach yn yr ymgynghoriad hwn.

Bydd Asesiad pellach o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gwblhau er mwyn ei gyhoeddi wrth i Fil Llywodraeth Leol (Cymru) gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hyn yn gyfle i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir yn ystod yr ymgynghoriad hwn, a bydd yn asesu effeithiau unrhyw newidiadau polisi arfaethedig.

**Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?**

| |
|---|
| Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fonitro effeithiau'r diwygiadau arfaethedig yn ofalus wrth eu gweithredu, yn ogystal â thrafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg â rhanddeiliaid perthnasol cyn cyflwyno'r Bil. |
| **Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?** |
| Bydd y gwaith o fonitro effeithiau'r darpariaethau hyn (gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad) yn canolbwyntio o bosibl ar:<br>• Waith y pwyllgorau pontio o ran y Gymraeg a chymunedau Cymraeg;<br>• Cymryd cyngor rhanddeiliaid perthnasol ac ailystyried y cyngor a gafwyd yn adroddiad y Gweithgor ar y Gymraeg a Llywodraeth Leol lle bo hynny'n berthnasol;<br>• Monitro'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, cyn ac wrth greu'r awdurdodau newydd.<br><br>Bydd canlyniadau'r monitro hwn yn cael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i gyfrannu at eu trafodaethau parhaus, ac i wella ansawdd y gwasanaethau Cymraeg. |
| **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau gwerthuso parhaus, effeithiau sy'n dod i'r amlwg** |
| |

## 4. Datganiad

| |
|---|
| **Arweinydd polisi:**<br><br>***Dilëwch fel sy'n briodol:***<br><br>***Mae'r polisi hwn / ~~Nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.** |
| Enw: |
| Stephen Phipps |
| Adran: Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Democratiaeth Llywodraeth Leol |
| Dyddiad(au): |
| Chwefror 2018 |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiadau adolygu: Medi 2018 (cyn cyhoeddi Bil Llywodraeth Leol Cymru) |

| ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o ddatblygiad. Drwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol drwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnodwyd Lisa James<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad Chwefror 2018 |
| | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |